Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 20/2013

www.cymru.gov.uk

# Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012

# Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012

**John Broomfield**

Y safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw rhai'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Enw: John Broomfield
Adran: Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansoddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1193

Ebost: John.Broomfield@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
ISBN 978-0-7504-9290-4
© Hawlfraint y Goron

## Tabl cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagarweiniad | | 2 |
| Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol | | 3 |
| 1 | Ymatebwyr | 5 |
| 2 | Ymlyniad Gwleidyddol | 8 |
| 3 | Profiad Blaenorol fel Cynghorydd | 9 |
| 4 | Rhywedd | 10 |
| 5 | Rhywedd ac Ymlyniad Gwleidyddol Cynghorwyr Etholedig | 11 |
| 6 | Oed | 13 |
| 7 | Ethnigrwydd | 14 |
| 8 | Crefydd | 15 |
| 9 | Cyfeiriadedd Rhywiol | 16 |
| 10 | Cyflogaeth | 17 |
| 11 | Cyfrifoldeb fel Rhiant | 21 |
| 12 | Cymorth di-dâl | 22 |
| 13 | Addysg a Chymwysterau | 23 |
| 14 | Iechyd Corfforol a Meddyliol | 24 |
| 15 | Anabledd | 25 |
| 16 | Yr Iaith Gymraeg | 26 |

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Uned Ddata Cymru, wedi cynnal arolwg o gynghorwyr llywodraeth leol ac ymgeiswyr yn dilyn etholiadau mis Mai 2012. Mewn perthynas ag ymgeiswyr llywodraeth leol, yr arolwg hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg safonedig o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus i gael eu hethol i swydd cynghorydd yn eu hardal. Roedd yr arolwg yn cynnwys cynghorwyr sir a chymuned a gofynnwyd set ragnodedig o gwestiynau oedd yn cynnwys cwestiynau (ond heb fod yn gyfyngedig i'r cwestiynau hynny) yn ymwneud â rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol, iaith; ethnigrwydd: oedran, anabledd, crefydd neu gred, iechyd, addysg a chymwysterau, cyflogaeth, a gweithio fel cynghorydd. Cefnogodd Uned Ddata Cymru nifer o awdurdodau lleol i gasglu'r wybodaeth hon yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2012.

Prif nod yr arolwg oedd darparu gwybodaeth amserol am broffil demograffig cynghorwyr awdurdodau lleol ac ymgeiswyr, ochr yn ochr â dadansoddiad o dueddiadau dros amser, gan gymharu yn erbyn data'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol (ERS) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) o flynyddoedd blaenorol. Y bwriad yw y byddai'r arolwg yn cael ei ailadrodd ym mhob etholiad cyffredin ac yn ei gwneud yn bosibl i wneud cymariaethau hydredol dros amser.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi nodweddion demograffig cynghorwyr etholedig ac ymgeiswyr sydd heb eu hethol, gan ganolbwyntio'n benodol ar amrywiaeth. Y bwriad yw y bydd y wybodaeth a ddarperir yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'r pleidiau gwleidyddol yn y gwaith o ddatblygu polisïau i gynyddu amrywiaeth y rhai sy'n sefyll fel cynghorwyr sir a chymuned.

*Noder: Nid yw'r canlyniadau yn cynnwys data o Ynys Môn, y cafodd ei hetholiadau eu cadw'n ôl am flwyddyn tan fis Mai 2013, pryd y cynhelir arolwg ar wahân ar gyfer y sir.*

## Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol

- Casglwyd cyfanswm o 3,201 o ymatebion o'r 21 o awdurdodau lleol.
- Roedd cyfradd ymateb y cynghorwyr sir yn amrywio ar draws awdurdodau lleol o 66 y cant yn Sir y Fflint i 12 y cant yng Nghaerdydd.

***Rhywedd***

- Roedd 32 y cant o gynghorwyr etholedig yn fenywod o'i gymharu â 31 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol.
- Ymhlith cynghorwyr sir, roedd 28 y cant yn fenywod.

***Oed***

- Roedd y rhan fwyaf o gynghorwyr etholedig dros 60 oed - 57 y cant o gynghorwyr sir a 61 y cant o gynghorwyr cymuned.
- Roedd 46 y cant o ymgeiswyr anetholedig o'r un oedran.

***Ethnigrwydd***

- Roedd y rhan fwyaf o gynghorwyr etholedig yn y grŵp Gwyn - 99.4 y cant.
- Roedd 2.8 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig (Cymysg / grwpiau aml-ethnig, Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, Du / Affricanaidd, Arall).

***Crefydd***

- Roedd 83 y cant o'r sampl o gynghorwyr etholedig yn dweud eu bod yn Gristnogion o'i gymharu â 70 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol.

***Cyfeiriadedd Rhywiol***

- Roedd 2 y cant o gynghorwyr etholedig yn nodi eu hunain fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) o'i gymharu â 5 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol.

***Anabledd***

- Roedd 14 y cant o gynghorwyr etholedig yn ystyried eu hunain yn anabl o'i gymharu â 15 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol.

*Profiad Blaenorol*

- Roedd 83 y cant o gynghorwyr etholedig yn dweud eu bod wedi gwasanaethu fel cynghorydd yn y gorffennol, gan awgrymu bod ail-ethol yn gyffredin iawn.

*Statws Cyflogaeth*

- Roedd 44 y cant o gynghorwyr etholedig wedi ymddeol o'i gymharu â 35 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol.
- Nid oedd 3 y cant o gynghorwyr etholedig yn y farchnad lafur o'i gymharu â 6 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol.
- Roedd 43 y cant o gynghorwyr etholedig yn disgrifio eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel y sector cyhoeddus, 43 y cant fel y sector preifat, a 5 y cant fel y sector gwirfoddol. Disgrifiodd y 9 y cant oedd yn weddill eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel 'arall'. Ychydig o amrywiaeth oedd yna ar draws y sampl o ymgeiswyr heb eu hethol.
- Roedd cyfran is o ymgeiswyr heb eu hethol yn weithwyr llaw neu yn weithwyr crefft.

*Lefel Addysg*

- Roedd gan 52 y cant o'r sampl o gynghorwyr etholedig gymhwyster oedd yn gyfwerth i NVQ lefel 4 ac uwch (h.y. gradd neu gymhwyster proffesiynol) o'i gymharu â 59 y cant o ymgeiswyr anetholedig.

*Yr Iaith Gymraeg*

- Dywedodd 25 y cant o gynghorwyr etholedig mai eu hiaith gyntaf oedd y Gymraeg o'i gymharu â 13 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol.
- Dywedodd 16 y cant o gynghorwyr sir mai eu hiaith gyntaf oedd y Gymraeg o'i gymharu â 26 y cant o gynghorwyr cymuned ac 15 y cant o ymgeiswyr cyngor sir anetholedig.

# 1 Ymatebwyr

Gweinyddwyd arolwg Llywodraeth Cymru o gynghorwyr llywodraeth leol ac ymgeiswyr (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'yr arolwg') i oddeutu 9,250 o ymgeiswyr sir a chymuned ar draws 21 awdurdod lleol yng Nghymru (oherwydd y gohiriwyd yr etholiadau ym mis Mai 2012, nid yw hyn yn cynnwys Ynys Môn). Casglwyd cyfanswm o 3,201 o ymatebion yn cynrychioli cyfradd ymateb gyffredinol o ryw 35 y cant. O'r rhain, dywedodd 2,485 o ymatebwyr eu bod wedi eu hethol fel cynghorwyr yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2012, a dywedodd 523 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn aflwyddiannus. Dywedodd 193 o ymatebwyr eu bod wedi eu hethol ac yn aflwyddiannus[1]. I ddiben yr adroddiad hwn, cafodd yr ymatebwyr olaf eu cynnwys fel ymatebwyr etholedig ac anetholedig felly, cyfanswm y sampl o ymatebwyr etholedig yw 2,678 a chyfanswm y sampl o ymatebwyr heb eu hethol yw 716 (n = 3,394).

O blith y 2,678 o ymatebwyr etholedig:
- Etholwyd 228 o ymatebwyr fel cynghorwyr sir.
- Etholwyd 2,206 o ymatebwyr fel cynghorwyr cymuned.
- Etholwyd 244 o ymatebwyr fel cynghorwyr cymuned a sir.
- Y sampl gyfan o gynghorwyr sir felly yw 472 (228 + 244).
- Y sampl gyfan o gynghorwyr cymuned yw 2,450 (2,206 + 244).

O'r 716 o ymatebwyr oedd heb eu hethol:
- Dywedodd 419 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn aflwyddiannus wrth sefyll ar gyfer y cyngor ar lefel sirol.
- Dywedodd 186 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn aflwyddiannus wrth sefyll ar gyfer y cyngor ar lefel cymuned.
- Dywedodd 44 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn aflwyddiannus wrth sefyll ar gyfer y cyngor ar lefel gymunedol a sirol.
- Dywedodd 67 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn aflwyddiannus wrth sefyll ar gyfer y cyngor, ond ni wnaethant nodi i ba lefel yr oeddent yn sefyll.
- Y sampl gyfan o ymgeiswyr cyngor sir anetholedig felly yw 463 (419 + 44).
- Y sampl gyfan o gynghorwyr cymuned anetholedig yw 230 (186 + 44).

Bydd yr adroddiad yn bennaf yn disgrifio ac yn cymharu nodweddion amrywiaeth:

- Cynghorwyr etholedig, gan dynnu gwahaniaethau rhwng nodweddion amrywiaeth cynghorwyr sir a chymuned;
- Ymgeiswyr sydd heb eu hethol, gan dynnu gwahaniaethau rhwng nodweddion amrywiaeth y sampl hwn ac ymgeiswyr anetholedig cyngor sir.

[1] Roedd ymgeiswyr yn gallu sefyll ar lefel Sirol a lefel y Gymuned.

Mae'r tabl isod yn dadgyfuno cyfanswm nifer yr ymatebion yn ôl awdurdod lleol.

| Awdurdod Lleol | Etholedig | Anetholedig | Cyfradd Ymateb Cynghorwyr Sir (y cant) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Blaenau Gwent | 14 | 3 | 21 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 58 | 15 | 43 |
| Caerffili | 74 | 25 | 42 |
| Caerdydd | 31 | 53 | 12 |
| Sir Gaerfyrddin | 376 | 87 | 54 |
| Ceredigion | 61 | 30 | 48 |
| Conwy | 187 | 53 | 53 |
| Sir Ddinbych | 125 | 33 | 45 |
| Sir y Fflint | 233 | 47 | 66 |
| Gwynedd | 219 | 25 | 29 |
| Merthyr Tudful | 20 | 11 | 61 |
| Sir Fynwy | 40 | 6 | 12 |
| Castell-nedd Port Talbot | 93 | 41 | 34 |
| Casnewydd | 39 | 21 | 20 |
| Sir Benfro | 354 | 60 | 52 |
| Powys | 223 | 25 | 23 |
| Rhondda Cynon Taf | 23 | 6 | 27 |
| Abertawe | 124 | 37 | 40 |
| Torfaen | 28 | 20 | 18 |
| Bro Morgannwg | 153 | 76 | 60 |
| Wrecsam | 203 | 42 | 58 |
| **Cyfanswm** | **2678** | **716** | **-** |


Mewn perthynas â chynghorau cymuned, cyfyngir y dadansoddiad i'r 2,450 o gynghorwyr cymuned. Mae maint cymharol fach y sampl o'r ymgeiswyr cymuned anetholedig (230 o ymatebwyr) ac absenoldeb unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn proffil demograffig yn diddymu'r angen am ddadansoddiad ar wahân. Ond mewn perthynas â chynghorwyr sir, rydym yn gallu cymharu ymgeiswyr anetholedig a rhai etholedig yn uniongyrchol. Caiff hyn ei gyfiawnhau oherwydd bod meintiau'r sampl yn fras yn gyfartal - 472 etholedig a 463 anetholedig, a'r ffaith ei bod yn fwy tebygol y bydd gwahaniaethau sylweddol yn amlwg.

Dewisodd rhai ymatebwyr beidio ag ateb cwestiynau penodol - yn fwyaf nodedig, plaid wleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, sector y gyflogaeth ddiweddaraf a lefel cymhwyster. Mae'r dadansoddiad canlynol yn cynnwys ymatebion dilys ar gyfer pob cwestiwn yn unig. Mae hyn yn golygu y gallai'r

dadansoddiad ar gyfer pob cwestiwn fod yn seiliedig ar grwpiau ychydig yn wahanol o ymatebwyr yn dibynnu ar faint a atebodd[2].

[2] Nid yw'r ffigurau bob amser yn gwneud cyfanswm o 100 y cant o ganlyniad i dalgrynnu.

## 2 Ymlyniad Gwleidyddol




Sail: [1]464, [2]2,095; [3]454

Roedd 52 y cant o'r sampl o gynghorwyr etholedig yn Annibynwyr, roedd 20 y cant yn dal seddi'r Blaid Lafur, roedd 12 y cant ohonynt yn aelodau o Blaid Cymru, roedd 4 y cant yn dal seddi Ceidwadwyr Cymru ac roedd 3 y cant yn Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru.


Mewn perthynas â chynghorwyr sir etholedig, roedd 27 y cant o'r sampl yn Annibynwyr, roedd 43 y cant yn dal seddi'r Blaid Lafur, roedd 16 y cant yn aelodau o Blaid Cymru, roedd 6 y cant yn dal seddi Ceidwadwyr Cymru ac roedd 7 y cant yn Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Ar gyfer cynghorwyr cymuned etholedig, roedd dros 50 y cant yn Annibynwyr. O'u cymharu â chynghorwyr sir, roedd cyfran lai o gynghorwyr cymuned yn dal seddi'r Blaid Lafur (17 y cant).

Roedd 30 y cant o'r sampl o ymgeiswyr heb eu hethol yn rhedeg hefyd fel ymgeiswyr annibynnol, safodd 19 y cant fel ymgeiswyr y Blaid Lafur, 19 y cant fel ymgeiswyr Plaid Cymru, 15 y cant fel  Ceidwadwyr Cymreig a 9 y cant fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Ymhlith yr ymgeiswyr heb eu hethol i gynghorau sir, safodd 27 y cant  fel Annibynwyr, safodd 19 y cant fel Llafur, 22 y cant fel Plaid Cymru, 15 y cant fel Ceidwadwyr Cymreig ac 11 y cant fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

# 3 Profiad Blaenorol fel Cynghorydd




Sail: [1]464; [2]2,432; [3]456    Sail: [1]467; [2]2,427; [3]456

Roedd 75 y cant o'r sampl o gynghorwyr etholedig wedi sefyll ar gyfer etholiad i gyngor yn y gorffennol.

O'r sampl o gynghorwyr sir etholedig, roedd 83 y cant wedi sefyll ar gyfer etholiad i gyngor yn y gorffennol o'i gymharu â 75 y cant ar gyfer cynghorwyr cymuned.

Roedd 61 y cant o'r sampl o ymgeiswyr heb eu hethol wedi sefyll ar gyfer etholiad i gyngor yn y gorffennol, o'i gymharu â 69 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig.


Dywedodd 83 y cant o gynghorwyr sir a chymuned eu bod wedi gwasanaethu fel cynghorydd yn y gorffennol, gan awgrymu bod ail-ethol yn gyffredin iawn (er na ofynnwyd i ymatebwyr a fu unrhyw fylchau yn eu gwasanaeth).

Dywedodd 51 y cant o'r sampl o ymgeiswyr heb eu hethol eu bod wedi gwasanaethu fel cynghorydd yn y gorffennol o'i gymharu â 53 y cant o ymgeiswyr cyngor sir anetholedig.

Gan gynnwys pob cyfnod mewn swydd yn gwasanaethu fel cynghorydd sir neu gymuned, roedd gan dros 50 y cant o gynghorwyr sir dros 10 mlynedd o brofiad o'i gymharu â thua 40 y cant o gynghorwyr cymuned.

Roedd 67 y cant o gynghorwyr sir wedi gwasanaethu fel cynghorydd sir yn y gorffennol; sydd unwaith eto yn cadarnhau bod ail-ethol yn gyffredin.

# 4 Rhywedd




Sail: [1]468; [2]2,422, [3]455

Canfu ein harolwg fod 68 y cant o gynghorwyr etholedig yn gyffredinol yn ddynion a 32 y cant yn fenywod. Yn amlwg, nid yw'r cyfrannau hyn yn adlewyrchu'r rhaniad rhwng y rhywiau sydd fwy neu lai yn gyfartal yn y boblogaeth gyffredinol.

Ymhlith cynghorwyr cymuned, roedd 32 y cant o'r ymatebwyr yn fenywod, ac ar gyfer cynghorwyr sir, roedd 28 y cant yn fenywod. Mae hyn yn debyg i ddata a adroddwyd gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, a amcangyfrifodd yn dilyn etholiadau 2012 fod 26 y cant o'r holl gynghorwyr sir yn fenywod.[3]


Mae ein harolwg yn awgrymu cynnydd yn y ganran o fenywod sy'n gynghorwyr sir o'i gymharu â 2004 pan amcangyfrifwyd bod 22 y cant o gynghorwyr sir yn fenywod (CLILC, 2004).[4]

Yn ôl yr arolwg, roedd gan 14 y cant o ferched oedd yn gynghorwyr sir a chymuned blant dibynnol.

Roedd 69 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol yn ddynion a 31 y cant yn fenywod. Ymhlith yr ymgeiswyr heb eu hethol ar gyfer cynghorau sir, roedd 29 y cant yn fenywod. O'r menywod hyn, roedd gan 10 y cant blant dibynnol.


[3] Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol (ERS) (2012). Sbotolau ar Gymru: Menywod a Llywodraeth Leol.
[4] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). (2005). Cyfrifiad Cenedlaethol o Gynghorwyr Awdurdodau Lleol 2004. Cymru - Trosolwg.

## 5 Rhywedd ac Ymlyniad Gwleidyddol Cynghorwyr etholedig




Sail: [1]201; [2]31; [3]70; [4]26


Canfu ein harolwg fod 31 y cant o gynghorwyr sir Llafur yn fenywod, o'i gymharu â 15 y cant o gynghorwyr sir y Ceidwadwyr. Mae hyn yn debyg i'r data a adroddwyd gan yr ERS a ganfu bod 'Ceidwadwyr yn gwneud yn llawer gwaeth na'r pleidiau eraill o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau'. Canfu ERS fod 20 y cant o gynghorwyr Ceidwadol yng Nghymru yn fenywod yn dilyn etholiadau 2012 o'i gymharu â 32 y cant o gynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol a 27 y cant o gynghorwyr Llafur.




Sail: [1]351; [2]52; [3]240; [4]82

Canfu ein harolwg fod Ceidwadwyr yn gwneud yn well o ran cynrychiolaeth y ddau ryw ymhlith cynghorwyr cymuned - roedd 35 y cant o gynghorwyr cymuned Ceidwadol yn fenywod. Mewn cymhariaeth, roedd 27 y cant o gynghorwyr cymuned y Democratiaid Rhyddfrydol yn fenywod.

# 6 Oed




Sail: [1]469; [2]2,430; [3]458

Canfu'r arolwg fod y rhan fwyaf o gynghorwyr etholedig dros 60 oed - 57 y cant o gynghorwyr sir a 61 y cant o gynghorwyr cymuned.

Canfu'r arolwg hefyd mai dim ond lleiafrif bach o gynghorwyr etholedig oedd rhwng 18 a 29 oed - llai na 2 y cant o gynghorwyr sir a llai nag 1 y cant o gynghorwyr cymuned.

Gan ddod â rhywedd i mewn i'r hafaliad, rydym yn gweld bod 61 y cant o gynghorwyr sir yn ddynion a dros 50 oed.

Yn 2004, cyfartaledd oed cynghorwyr sir a ymatebodd i arolwg tebyg oedd 57 (CLlLC, 2004).

Ymhlith ymgeiswyr heb eu hethol, roedd 46 y cant dros 60 oed, ac roedd 6 y cant rhwng 18 a 29 mlwydd oed. Fel y mae'r graff yn dangos, gellir dyfynnu canrannau tebyg ar gyfer ymgeiswyr sir anetholedig.

Yn gyffredinol, mae'r data uchod yn cyd-fynd ag adroddiad Llywodraeth Cymru sy'n 'monitro' lles pobl hŷn (50 oed a throsodd). Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith fod cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn fwy cyffredin ymysg pobl hŷn.  Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ddangos diddordeb mewn materion gwleidyddol a materion cyfansoddiadol.[5]

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2009). Monitor Lles Pobl Hŷn Cymru 2009.

## 7 Ethnigrwydd

| | Gwyn (%) | Grwp Lleiafrif Ethnig Arall (%) |
|---|---|---|
| Cynghorwyr sir[1] | 99.4 | 0.6 |
| Cynghorwyr Cymuned[2] | 99.5 | 0.5 |
| Ymgeiswyr Sir Anetholedig[3] | 97.3 | 2.7 |

Sail: [1]468; [2]2,426, [3]460


Dangosodd ein harolwg fod y rhan fwyaf o gynghorwyr etholedig yn y grŵp Gwyn - 99.4 y cant (yn fwy cyffredin Gwyn Cymreig/ Seisnig/Albanaidd / Gwyddelig /Gogledd Iwerddon / Prydeinig).

Mewn perthynas â chynghorwyr sir, 0.6 y cant oedd yn perthyn i grwpiau lleiafrifol ethnig eraill (Grwpiau cymysg / grwpiau aml-ethnig, Asiaidd / Asiaidd Prydeinig, Du / Affricanaidd, Arall), ac 0.5 y cant o gynghorwyr cymuned oedd yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill. Mae hyn yn debyg i ddata a adroddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a amcangyfrifodd yn 2004 bod 99.2 y cant o gynghorwyr sir yn wyn a 0.8 y cant yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig (CLlLC, 2004).

Canfu'r arolwg hefyd fod yr holl gynghorwyr sir benywaidd a ymatebodd wedi nodi eu hunain fel Gwyn.

Ymhlith yr ymgeiswyr heb eu hethol, roedd y mwyafrif hefyd yn wyn - roedd 2.8 y cant yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill. Fel y dengys y tabl, gellir adrodd canrannau tebyg ar gyfer ymgeiswyr sir anetholedig.

## 8 Crefydd




Sail: [1]451, [2]2352; [3]442

Canfu ein harolwg fod 83 y cant o gynghorwyr etholedig yn dweud eu bod yn Gristnogion, nid oedd gan 15 y cant unrhyw grefydd ac ymatebodd 2 y cant drwy ddweud 'Arall'. Mae 'Arall' yn cynnwys yr ymatebion Bwdhaidd, Hindaidd, Iddewig, Mwslimaidd ac 'unrhyw grefydd arall'.

Nid oedd llawer o wahaniaeth ar draws y samplau o gynghorwyr sir a chymuned.

Dywedodd 70 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol eu bod yn Gristnogion, nid oedd gan 25 y cant unrhyw grefydd ac ymatebodd 6 y cant drwy ddweud 'Arall'. Fel y mae'r graff yn dangos, gellir adrodd canrannau tebyg ar gyfer ymgeiswyr sir anetholedig.

## 9 Cyfeiriadedd Rhywiol

| | **Heterorywiol (y cant)** | **Arall (y cant)** | **LHD (y cant)** |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr Sir [1] | 97 | 3 | < 1 |
| Cynghorwyr Cymuned [2] | 98 | 1 | < 1 |
| Ymgeiswyr Cyngor Sir heb eu hethol[3] | 95 | 4 | 1 |

Sail: [1]443; [2]2,293; [3]444;

Canfu ein harolwg fod y mwyafrif o gynghorwyr etholedig wedi nodi eu hunain fel heterorywiol - 98 y cant.


Nododd 3 y cant o gynghorwyr sir eu hunain fel LHD o'i gymharu ag 1 y cant o gynghorwyr cymuned. Fel y nodwyd gan yr EHRC, mae cwestiwn o'r fath yn debygol o gael ei effeithio gan dan-ddatgan sylweddol.[6]

Ymhlith yr ymgeiswyr heb eu hethol, nododd 95 y cant o ymatebwyr eu hunain fel heterorywiol.

Nododd 4 y cant o ymgeiswyr cyngor sir anetholedig eu hunain fel LHD.

[6] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC). (2010a). *Pa mor deg yw Prydain?* Yr Adolygiad Tair Blynedd Cyntaf. Manceinion: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## 10 Cyflogaeth




Sail: [1]469, [2]2,430; [3]458

Canfu ein harolwg fod 27 y cant o gynghorwyr etholedig yn weithwyr, naill ai'n amser llawn (19 y cant) neu'n rhan amser (8 y cant). Roedd 44 y cant wedi ymddeol, roedd 23 y cant yn hunangyflogedig ac nid oedd 3 y cant yn y farchnad lafur o gwbl (ar gyfnod mamolaeth, yn gofalu am deulu neu gartref, myfyriwr amser llawn, gyda salwch tymor hir neu'n anabl, gweithiwr di-dâl mewn busnes teuluol, gofalwr di-dâl neu 'yn gwneud rhywbeth arall'). Roedd 1 y cant yn ddi-waith.


Ymhlith cynghorwyr sir, canfu ein harolwg fod 31 y cant yn gyflogeion, naill ai'n amser llawn (20 y cant) neu'n rhan amser (11 y cant). Roedd 44 y cant hefyd wedi ymddeol, roedd 19 y cant yn hunan-gyflogedig ac nid oedd 4 y cant yn y farchnad lafur o gwbl (ar gyfnod mamolaeth, yn gofalu am deulu neu gartref, myfyriwr amser llawn, gyda salwch tymor hir neu'n anabl, gweithiwr di-dâl mewn busnes teuluol, gofalwr di-dâl neu 'yn gwneud rhywbeth arall'). Roedd 2 y cant yn ddi-waith.

O'u cymharu â chynghorwyr sir, roedd cyfran is o gynghorwyr cymuned yn weithwyr (27 y cant), ac roedd cyfran uwch yn hunan-gyflogedig (24 y cant).

Yn 2004, canfu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod 32 y cant o gynghorwyr sir yn weithwyr, naill ai'n amser llawn (23 y cant) neu'n rhan amser (9 y cant). Roedd 42 y cant wedi ymddeol, 16 y cant yn hunan-gyflogedig ac nid oedd 10 y cant yn y farchnad lafur o gwbl.

Roedd 32 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol yn weithwyr, naill ai'n amser llawn (22 y cant) neu'n rhan amser (10 y cant) . Roedd 35 y cant wedi ymddeol, roedd 23 y cant yn hunan-gyflogedig ac nid oedd 6 y cant yn y

farchnad lafur  o gwbl (ar gyfnod mamolaeth, yn gofalu am deulu neu gartref, myfyriwr amser llawn, gyda salwch tymor hir neu'n anabl, gweithiwr di-dâl mewn busnes teuluol, gofalwr di-dâl neu 'yn gwneud rhywbeth arall'). Roedd 3 y cant yn ddi-waith. Mae'r graff yn dangos y gall canrannau tebyg gael eu hadrodd ar draws y sampl o ymgeiswyr sir anetholedig.





Sail: [1]437; [2]2,450; [3]433

Canfu ein harolwg fod 43 y cant o gynghorwyr etholedig yn disgrifio eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel cyhoeddus (llywodraeth leol, llywodraeth ganolog, y GIG, addysg neu 'sector cyhoeddus arall'), 43 y cant fel y sector preifat, a 5 y cant fel y sector gwirfoddol. Roedd y 9 y cant oedd yn weddill yn disgrifio eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel 'arall'.

Mae'r graff yn dangos bod cyfran uwch o gynghorwyr sir yn disgrifio eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel llywodraeth leol, tra bod cyfran lai o'r sampl hwn yn disgrifio eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel y sector preifat.

Ymhlith ymgeiswyr heb eu hethol, roedd 43 y cant yn disgrifio eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel cyhoeddus, 44 y cant fel y sector preifat, a 6 y cant fel y sector gwirfoddol. Roedd y 7 y cant oedd yn weddill yn disgrifio eu sector cyflogaeth bresennol neu fwyaf diweddar fel 'arall'.

Mae'r graff yn dangos bod cyfran uwch o ymgeiswyr sir anetholedig yn disgrifio eu cyflogwr presennol neu fwyaf diweddar fel 'arall' o'i gymharu â chynghorwyr sir a chymuned.




Sail: [1]236; [2]1,246; [3]242


Canfu ein harolwg o blith y cynghorwyr etholedig hynny sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd ac a ymatebodd i'r cwestiwn *Os mai eich statws yw cyflogedig, pa gategori sy'n disgrifio orau eich math chi o waith?,* roedd 30 y cant yn rheolwyr neu yn swyddogion gweithredol, roedd 28 y cant yn weithwyr proffesiynol neu dechnegol, roedd 9 y cant yn disgrifio'u hunain fel darlithydd, athro neu ymchwilydd, roedd 13 y cant yn gweithio mewn gweinyddiaeth, a 20 y cant yn weithwyr llaw neu yn weithwyr crefft.

Fel y mae'r graff yn dangos, o'i gymharu â chynghorwyr sir, roedd cyfran lai o gynghorwyr cymuned yn rheolwyr neu yn swyddogion gweithredol (36 y cant o'i gymharu â 29 y cant), tra bod cyfran uwch yn weithwyr llaw neu grefft (19 y cant o'i gymharu â 21 y cant ).

Ymhlith yr ymgeiswyr heb eu hethol, roedd 30 y cant yn rheolwyr neu yn swyddogion gweithredol, 29 y cant yn weithwyr proffesiynol neu dechnegol, roedd 11 y cant yn disgrifio'u hunain fel athro, darlithydd neu ymchwilydd, roedd 14 y cant yn gweithio mewn gweinyddiaeth, ac 16 y cant yn weithwyr llaw neu weithwyr crefft.

Roedd 32 y cant o ymgeiswyr sir anetholedig yn rheolwyr neu swyddogion gweithredol, roedd 28 y cant yn weithwyr proffesiynol, roedd 12 y cant yn disgrifio'u hunain fel darlithydd, athro neu ymchwilydd, roedd 16 y cant yn gweithio mewn gweinyddiaeth, ac roedd 12 y cant yn weithwyr llaw neu grefft.

# 11 Cyfrifoldeb Rhiant




Sail: [1]2,544; [2]668;

Roedd gan 14 y cant o gynghorwyr etholedig gyfrifoldeb rhiant dros blentyn 16 oed neu iau.

Roedd gan 14 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol hefyd gyfrifoldeb rhiant dros blentyn 16 oed neu iau.


Nid oedd llawer o wahaniaeth ar draws y samplau eraill.

## 12 Cymorth di-dâl

Mae'r tabl isod yn dangos canran y cynghorwyr etholedig ac ymgeiswyr sydd heb eu hethol a oedd wedi gwirfoddoli i'r grwpiau neu sefydliadau canlynol ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis diwethaf.

| **Sefydliad** | **Cynghorwyr Etholedig (y cant)** | **Ymgeiswyr heb eu hethol (y cant)** |
|---|---|---|
| Grŵp cymunedol neu gymdogaeth | 43 | 37 |
| Addysg / ysgolion plant | 30 | 29 |
| Plaid wleidyddol | 23 | 47 |
| Gweithgareddau i ieuenctid/plant (tu allan i'r ysgol) | 19 | 16 |
| Grŵp crefyddol neu ffydd | 16 | 16 |
| Yr henoed | 16 | 17 |
| Grŵp amgylcheddol | 13 | 17 |
| Chwaraeon neu ymarfer (ee hyfforddi) | 11 | 10 |
| Clwb cymdeithasol | 11 | 9 |
| Grŵp iechyd, anabledd neu les cymdeithasol | 10 | 12 |
| Addysg ar gyfer oedolion | 6 | 8 |
| Grŵp dinasyddion | 6 | 7 |
| Undebau Llafur | 6 | 8 |
| Cyfiawnder a Hawliau Dynol | 4 | 8 |
| Cymorth Cyntaf | 3 | 4 |
| Grŵp lles anifeiliaid | 3 | 4 |
| Grŵp Rhywedd | <1 | <1 |
| Grŵp Rhywioldeb | <1 | <1 |

## 13 Addysg a Chymwysterau




Sail: [1]449; [2]2,311; [3]446

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r cymhwyster uchaf oedd ganddynt. Roedd gan 52 y cant o gynghorwyr etholedig gymhwyster oedd yn gyfwerth i NVQ lefel 4, ac uwch h.y. gradd, cymhwyster proffesiynol), roedd gan 10 y cant arall gymhwyster cyfwerth i NVQ lefel 3 (h.y. TAG, Safon Uwch). Roedd gan 25 y cant gymhwyster sy'n cyfateb i NVQ lefel 1 neu 2, a dywedodd 14 y cant nad oedd ganddynt unrhyw rai o'r cymwysterau a restrwyd.

Mewn perthynas â chynghorwyr sir, roedd gan 52 y cant gymhwyster oedd yn gyfwerth i NVQ lefel 4, ac uwch (h.y. gradd, cymhwyster proffesiynol), roedd gan 10 y cant arall gymhwyster cyfwerth i NVQ lefel 3 (h.y. TAG, Safon Uwch). Dywedodd 11 y cant o ymgeiswyr sir nad oedd ganddynt unrhyw rai o'r cymwysterau a restrwyd. Nid oedd llawer o wahaniaeth ar draws y sampl o gynghorwyr cymuned.

Yn 2004 adroddodd CLILC fod gan 40 y cant o gynghorwyr sir gymhwyster oedd yn gyfwerth i NVQ lefel 4, ac uwch (h.y. gradd, cymhwyster proffesiynol), roedd gan 10 y cant arall gymhwyster cyfwerth i NVQ lefel 3 (h.y. TAG Safon Uwch). Adroddodd 19 y cant o'u sampl o gynghorwyr sir nad oedd ganddynt unrhyw rai o'r cymwysterau a restrwyd.

Roedd gan 59 y cant o ymgeiswyr anetholedig gymhwyster oedd yn gyfwerth i NVQ lefel 4, ac uwch (h.y. gradd, cymhwyster proffesiynol), roedd gan 12 y cant arall gymhwyster cyfwerth i NVQ lefel 3 (h.y. TAG, Safon Uwch). Roedd gan 21 y cant gymhwyster sy'n cyfateb i NVQ lefel 1 neu 2, a dywedodd 8 y cant nad oedd ganddynt unrhyw rai o'r cymwysterau a restrwyd. Fel y dengys y graff, ceir canrannau tebyg ar gyfer ymgeiswyr sir heb eu hethol.


## 14 Iechyd Corfforol a Meddyliol

Canfu ein harolwg fod 82 y cant o gynghorwyr etholedig yn disgrifio eu hiechyd corfforol fel 'da' neu 'dda iawn', 4 y cant fel 'gwael' neu 'gwael iawn', tra roedd y 15 y cant oedd yn weddill yn disgrifio eu hiechyd corfforol fel 'gweddol'.

Canfu'r arolwg hefyd fod 98 y cant o gynghorwyr etholedig yn disgrifio eu hiechyd meddwl fel 'da' neu 'dda iawn' a 2 y cant fel 'gweddol'. Disgrifiodd llai nag 1 y cant eu hiechyd meddwl yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.

Nid oedd llawer o wahaniaeth ar draws y sampl o ymgeiswyr heb eu hethol o ran iechyd corfforol a meddyliol.

## 15 Anabledd




Sail: [1]2,613; [2]699

Canfu ein harolwg fod canran y rhai oedd yn nodi eu bod yn anabl yn weddol gyson ar draws yr holl samplau.

Roedd 14 y cant o gynghorwyr etholedig yn ystyried eu hunain yn anabl. O'r rhain, roedd 71 y cant yn teimlo bod eu salwch neu anabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau mewn rhyw ffordd.

Mewn perthynas â chynghorwyr sir, roedd 15 y cant yn ystyried eu hunain yn anabl o'i gymharu â 14 y cant o gynghorwyr cymuned.


Mewn cymhariaeth, dywedodd 17 y cant o gynghorwyr sir a ymatebodd i arolwg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2004 fod ganddynt broblem iechyd hirdymor neu anabledd oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dyddiol neu'r gwaith y gallent ei wneud.

O ran oedran, roedd y mwyafrif o gynghorwyr etholedig oedd yn ystyried eu hunain yn anabl dros 50 oed - 91 y cant.

Roedd 15 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol yn ystyried eu hunain yn anabl. O'r rhain, roedd 72 y cant yn teimlo bod eu salwch neu anabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau mewn rhyw ffordd.

O fewn y sampl o ymgeiswyr cyngor sir anetholedig, roedd 13 y cant yn ystyried eu hunain yn anabl ac yr oedd 83 y cant ohonynt dros 50 oed.

## 16 Yr Iaith Gymraeg




Sail: [1]472; [2]2,450; [3]463

Ymhlith cynghorwyr etholedig, canfu'r arolwg fod 25 y cant yn dweud mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf.

Dywedodd 16 y cant o gynghorwyr sir mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf o'i gymharu â 26 y cant o gynghorwyr cymuned.

Dywedodd 30 y cant o gynghorwyr sir eu bod yn deall Cymraeg, dywedodd 27 y cant y medrent siarad Cymraeg a dywedodd 20 y cant eu bod yn medru ysgrifennu Cymraeg.

Dywedodd 38 y cant o gynghorwyr cymuned eu bod yn deall Cymraeg, medrai 36 y cant siarad Cymraeg ac roedd 31 y cant yn medru ysgrifennu Cymraeg.

Mae ein harolwg yn awgrymu cynnydd yng nghanran cynghorwyr sir sy'n medru siarad Cymraeg. Yn 2004, adroddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod 10 y cant o gynghorwyr sir yn dweud mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf. Dywedodd 27 y cant o gynghorwyr sir eu bod yn deall Cymraeg, medrai 22 y cant siarad Cymraeg ac roedd 25 y cant yn medru ysgrifennu Cymraeg. Ond mae'n ymddangos mai'r cynghorau gyda'r cyfraddau ymateb isaf i'n harolwg yw'r awdurdodau lleol di-Gymraeg. Gallai hyn fod wedi chwyddo cyfran yr ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg.

Canfu'r arolwg fod 13 y cant o ymgeiswyr heb eu hethol wedi nodi mai'r Gymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Ymhlith ymgeiswyr cyngor sir anetholedig, nododd 15 y cant a ymatebodd i'r arolwg mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf.

Dywedodd 38 y cant o ymgeiswyr cyngor sir anetholedig eu bod yn deall Cymraeg, medrai 33 y cant siarad Cymraeg a medrai 26 y cant ysgrifennu Cymraeg.